**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/EM/0966/22

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

22 Mawrth 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror ynglŷn ag ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i faterion sy’n ymwneud â rhyddhau cleifion o’r ysbyty a’r effaith ar lif y cleifion drwy ysbytai, a’r gwasanaeth Adre o’r Ysbyty a weithredir gan Gofal a Thrwsio. Hoffwn ddiolch i aelodau’r Pwyllgor am roi o’u hamser i ystyried y pwnc pwysig hwn.

Ers i’r gwasanaeth Adre o’r Ysbyty gael ei gyflwyno ar draws Cymru yn ystod gaeaf 2018/29, rydym wedi gweld tystiolaeth galonogol o’r manteision i brofiadau cleifion a staff. Er inni weld rhywfaint o amrywio ar draws Cymru, mae’n ymddangos bod y gwasanaeth wedi gwneud y broses o ryddhau cleifion hŷn sy’n agored i niwed yn fwy diogel a chyflym, gan iddynt elwa ar addasiadau a gafodd eu cwblhau mewn amser byr yn eu cartrefi.

Y bwriad yn y dechrau oedd y byddai’r gwasanaeth hwn yn gynllun peilot dros gyfnod y gaeaf, gan ddisgwyl y byddai Byrddau Iechyd yn parhau i ariannu’r gwasanaeth yn y tymor hir os oeddent o’r farn ei fod yn addas ar gyfer anghenion eu poblogaethau lleol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod y lefel ymgysylltu rhwng Gofal a Thrwsio a’r Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn gyfyngedig oherwydd yr angen i flaenoriaethu’r ymateb i heriau’r pandemig a mynd i’r afael â’r pwysau ar y system.

Cafodd cyllid ychwanegol ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn arall er mwyn parhau â’r gwasanaeth Adre o’r Ysbyty yn 2021/22. Anfonwyd llythyr i’r Byrddau Iechyd ar 3 Mawrth 2020 i gadarnhau’r cyllid ychwanegol hwn, gan egluro y byddai angen i’r Byrddau baratoi eu rhagdybiaethau cynllunio ac ariannu eu hunain ar gyfer y gwasanaeth o 2021/22 ymlaen. Cawsant gyfarwyddyd i ystyried a oedd y gwasanaeth yn cynnig gwerth digonol i boblogaethau lleol, ac i wneud penderfyniad yn lleol a ddylid ei ariannu ar sail gynaliadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu i gynrychiolwyr y Byrddau Iechyd a Gofal a Thrwsio, a swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gydol 2021/22 i edrych ar atebion ariannu ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyfathrebu gan y Byrddau Iechyd, ysgrifennodd Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru at Brif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Gweithredu'r Byrddau ar 9 Chwefror yn gofyn iddynt am yr wybodaeth ddiweddaraf gan eu sefydliadau.

Erbyn hyn rydym wedi cael cadarnhad oddi wrth bob un o'r pum Bwrdd Iechyd sy'n defnyddio'r gwasanaeth Adre o'r Ysbyty eu bod yn bwriadu parhau â'r gwasanaeth drwy gyllid lleol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi penderfynu cynnnwys y gwasanaeth Adre o'r Ysbyty yn rhan o gontract presennol gwasanaeth byw'n annibynnol yr Awdurdod Lleol gyda Gofal a Thrwsio.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services